

Lluniadau Rhaglennu | Mat Adolygu

Is-drefn


- Mae is-drefniadau yn debyg i dudalen gynnwys mewn llyfr.
- Mae is-drefn yn set o gyfarwyddiadau sydd wedi'u dylunio i gyflawni gweithred a ddefnyddir yn aml o fewn rhaglen.

Newidyn

- Mae newidyn yn lleoliad cof.
- Mae rhaglenni cyfrifiadurol yn defnyddio newidynnau i storio gwybodaeth a all newid.

Enwau

- Mae angen ysgrifennu'r cod er mwyn sicrhau bod rhywun arall sy'n edrych arno yn gallu ei ddeall.
- Un o'r ffyrdd mwyaf hawdd o wneud hyn yw sicrhau bod rhaglenni cyfrifiadurol a'r dynodwyr sydd wedi'u cwmpasu ynddynt yn cael eu henwi mewn modd synhwyrol.



Seiliedig ar gyfrinair

- Dylai darn o god sydd wedi'i ysgrifennu'n dda gael ei anodi.
- Gellir defnyddio'r sylwadau hyn i ychwanegu disgrifiadau, nodiadau neu esboniadau y gellir eu darllen gan unrhyw un sydd â mynediad i'r cod gwreiddiol.

Mewnoliad

- Fel arfer, mae cod wedi'i fewnoli yn cynnwys lluniadau fel dolenni, datganiadau if, dethol ac yn y blaen, ac mae pob un o'r rhain yn mynnu bod tasgau ychwanegol yn cael eu perfformio os gelwir arnynt.
- Mae'r math hwn o ddynodydd yn cynnwys symud rhannau o'ch cod i'r dde er mwyn gallu gweld a darllen strwythur cyffwrddol eich cod yn gliriach.

Bwlch gwyn

- Gellir defnyddio bwlch gwyn mewn darn o god i wahanu gwahanol is-raglenni a swyddogaethau oddi wrth ei gilydd.
- Mae defnyddio bylchau gwyn yn galluogi cod i gael ei ddarllen yn haws, gan ei fod yn dangos yn glir lle mae israglenni a swyddogaethau'n dechrau ac yn gorffen..

```
declare subroutine FindOddNums
numoutput is integer
highestodd is integer {mae angen yr odrif uchaf}
set numoutput = 0 {gosod y gwerth cychwynnol ar sero}
input highestodd {defnyddiwr yn mewnbynnu ei odrif uchaf}
repeat
    numoutput = numoutput + 1 {cynydd o 1 i'r numoutput}
    output numoutput
until(numoutput = highestodd) {ailadrodd nes y bydd y numoutput yn gyfwerth â'r highestodd}
end subroutine
```

Enghraifft o ffug-god

```
reg is string
carfound = false

print ("Nodwch rif cofrestru'r car rydych yn chwilio amdano")
input reg
for i in range(myList)
    if myList[i] == reg then
        print("Mae eich car wedi'i barcio yma")
        carfound = true
    else
        print("Mae'n ddrwg gennym, mae angen i chi edrych yn rhywle arall")
end if
```

Enghraifft o ffug-god

Mae cod mewn rhaglen gyfrifiadurol wedi'i strwythuro mewn modd tebyg iawn i lyfr. Y rheswm am hyn yw bod y cod yn gallu cael ei ddarllen yn ei drefn, yn yr un modd â darllen llyfr o glawr i glawr. Fodd bynnag, nid oes angen darllen pob adran mewn rhai llyfrau ac, felly, gellir dewis pennod benodol i'w darllen. Hefyd, gellir darllen adran o lyfr sawl gwaith, sy'n golygu bod y broses o ddarllen yn cael ei ailadrodd.



Lluniadau Rhaglennu | Geirfa

Is-drefn

- Felly, is-drefn yw set o gyfarwyddiadau sydd wedi'u dylunio i gyflawni gweithred a ddefnyddir yn aml o fewn rhaglen.

Newidyn

- Mae newidyn yn lleoliad cof. Mae rhaglenni cyfrifiadurol yn defnyddio newidynnau i storio gwybodaeth a all newid.

Anodiad

- Sylwadau y gellir eu defnyddio i ychwanegu disgrifiadau, nodiadau neu esboniadau i ddarn o god y gellir eu darllen gan unrhyw un sydd â mynediad i'r darn hwnnw o god.

Mewnoliad

- Dynodydd rhaglennu sy'n cynnwys symud darnau o god i'r dde er mwyn gallu ei weld a'i ddarllen yn haws.

Bwlch gwyn

- Gellir defnyddio bwlch gwyn mewn darn o god i wahanu gwahanol is-raglenni a swyddogaethau oddi wrth ei gilydd.

Pasio

- Pan gaiff llinyn ei basio trwy raglen, gallwch ddadansoddi cynnwys y llinyn cyfan neu ran ohono.

Cydgadwynedd

- Yr enw am y broses o gyfuno dau llinyn at ei gilydd yw cydgadwynedd.

Cymharu

- Cymharu cynnwys dau llinyn er mwyn eu galluogi i ddychwelyd gwerth 'gwir neu gau' os ydynt yr un fath ai peidio.

Disodli

- Yr enw am y broses o amnewid darn o llinyn yw disodli.

Mesur hyd

- Gellir mesur llinyn i weld faint o nodau mae'n ei gynnwys.

Tocio

- Yn aml, wrth fewnbynnu llinynnau, gellir gadael bylchau gwyn yn anfwriadol ar ddechrau neu ddiwedd y llinyn hwnnw. Gellir defnyddio'r dechneg tocio er mwyn dileu'r bylchau gwyn hyn i sicrhau nad ydynt yn defnyddio gofod storio yn ddiangen nac yn achosi problemau wrth gyflawni technegau trin llinynnau eraill fel cydgadwyno llinynnau.

>

- Yn fwy na

<

- Yn llai na

<=

- Yn llai na neu yn hafal i

>=

- Yn fwy na neu yn hafal i

<>

- Ddim yn hafal i

==

- Yr un peth â

